

# Canllaw i'r Pwyllgor Busnes

## Mehefin 2020

---

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn benodol â'r Pwyllgor Busnes a'i swyddogaethau.

Mae'n trafod y meysydd a ganlyn:

- Cadeirydd, aelodaeth a chyfarfodydd y Pwyllgor;
- rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor, gyda golwg ar y canlynol: trefn busnes y Senedd; strwythur ac aelodau'r pwyllgorau; deddfwriaeth; cyllidebau; ac arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd.



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd Cymru: **[www.senedd.cymru](http://www.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Canllaw i'r Pwyllgor Busnes

Mai 2020

---

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn benodol â'r Pwyllgor Busnes a'i swyddogaethau.

Mae'n trafod y meysydd a ganlyn:

- Cadeirydd, aelodaeth a chyfarfodydd y Pwyllgor;
- rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor, gyda golwg ar y canlynol: trefn busnes y Senedd; strwythur ac aelodau'r pwyllgorau; deddfwriaeth; cyllidebau; ac arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd.



# Canllaw i'r Pwyllgor Busnes

**Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn benodol â'r Pwyllgor Busnes a'i swyddogaethau.**

Mae'n trafod y meysydd a ganlyn:

- Cadeirydd, aelodau a chyfarfodydd y Pwyllgor;
- Rolau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor, gyda golwg ar y canlynol:
- Trefn busnes y Senedd;
- Strwythurau ac aelodau'r pwyllgorau;
- Deddfwriaeth
- Cyllidebau; ac
- Arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd.

# Cynnwys

<b>Cynnwys</b> .....	<b>2</b>
<b>A. Cyflwyniad</b> .....	<b>5</b>
<b>B. Cadeirydd, Aelodau a chyfarfodydd y Pwyllgor Busnes</b> .....	<b>6</b>
Cadeirydd .....	6
Aelodau .....	6
Dirprwyon.....	6
Cyfarfodydd .....	7
Pleidleisio .....	7
<b>C. Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor</b> .....	<b>9</b>
Trefnu busnes y Cyfarfod Llawn .....	9
Strwythurau ac aelodau'r pwyllgorau;.....	13
Craffu ar Filiau'r Senedd .....	14
Cydsyniad mewn perthynas â Biliau Senedd y Deyrnas Unedig .....	15
Amserlen ar gyfer ystyried y Gyllideb Flynyddol .....	16
Arferion a gweithdrefnau cyffredinol .....	17
Swyddogaethau achlysurol eraill y Pwyllgor Busnes.....	17

## A. Cyflwyniad

- 01.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am drefnu busnes y Senedd. Dyma'r unig bwyllgor y disgrifir ei swyddogaethau a'i gylch gwaith yn y Rheolau Sefydlog. Ei waith yw "hwyluso'r modd o drefnu trafodion y Senedd yn effeithiol", fel y nodir yn Rheol Sefydlog 11.1.
- 02.** Y Llywydd sy'n cadeirio'r pwyllgor, ac mae'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth, a rheolwr busnes pob un o grwpiau gwleidyddol eraill y Senedd yn aelodau ohono.
- 03.** Bydd y Pwyllgor Busnes fel arfer yn cyfarfod unwaith yr wythnos yn ystod yr wythnosau pan fydd y Senedd yn eistedd er mwyn trefnu busnes y Cyfarfod Llawn. Mae ei swyddogaethau eraill yn cynnwys cynnig strwythur a chylchoedd gorchwyl ar gyfer pwyllgorau, cytuno ar amserlenni i bwyllgorau ystyried deddfwriaeth, a gwneud argymhellion ar gyfer arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd.

## **B. Cadeirydd, Aelodau a chyfarfodydd y Pwyllgor Busnes**

### **Cadeirydd**

**04.** Yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(i), y Llywydd sy'n cadeirio'r Pwyllgor Busnes. Pan na fydd y Llywydd yn bresennol, caniateir i'r Dirprwy Lywydd gadeirio, a hynny yn unol â Rheol Sefydlog 6.18.

### **Aelodau**

#### *Cyffredinol*

- 05.** Ac eithrio'r cadeirydd, caiff aelodau eraill y Pwyllgor eu henwebu gan bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Enwebir un aelod o bob grŵp gwleidyddol. Fel arfer, rheolwyr busnes y grwpiau fydd y rhain.
- 06.** Gall tri neu fwy o Aelodau, nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol, ffurfio grwpiad at ddibenion enwebu un o'i Aelodau i gael ei benodi i'r Pwyllgor Busnes.
- 07.** Lle mae nifer yr Aelodau nad ydynt yn aelod o grŵp gwleidyddol yn golygu (ac am y rheswm hwn yn unig) nad ydych yn gallu ffurfio grŵp gwleidyddol (ac felly nad oes ganddynt gynrychiolydd ar y Pwyllgor Busnes), mae gan bob un o'r cyfryw Aelodau yr hawl i fynychu trafodion y Pwyllgor a chânt bleidleisio (gweler paragraffau 18 i 23 i gael gwybod mwy am bleidleisio yn y Pwyllgor Busnes).

#### *Cynnig i benodi aelodau i'r Pwyllgor*

- 08.** Cyflwynir y cynnig i benodi aelodau i'r Pwyllgor gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth, cyn gynted ag y bo modd ar ôl ei benodi gan y Prif Weinidog, yn unol â Rheol Sefydlog 11.3. Rhaid i'r cynnig gael cefnogaeth o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio. Ni chaniateir cyflwyno gwelliannau i'r cynnig hwn.
- 09.** Os na dderbynnir y cynnig, rhaid i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth gyflwyno cynnig i bennu maint y Pwyllgor Busnes.
- 10.** Byddai lleoedd ar y Pwyllgor yn cael eu dyrannu i grwpiau gwleidyddol er mwyn adlewyrchu eu cynrychiolaeth gyffredinol yn y Senedd, yn unol ag adrannau 29(3) i (7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru (system d'Hondt ar gyfer dyrannu lleoedd ar Bwyllgorau). Byddai pob grŵp gwleidyddol wedyn yn penderfynu pa Aelod(au) a fyddai'n cynrychioli'r grŵp hwnnw.

### **Dirprwyon**

**11.** Yn unol â Rheol Sefydlog 17.48, os bydd wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Llywydd, caniateir i aelod o'r Pwyllgor gael ei gynrychioli mewn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Busnes gan aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol. Yna, caniateir i'r aelod a enwebwyd gymryd rhan ym mhob agwedd ar drafodion y Pwyllgor fel pe bai'n aelod ohono (gan gynnwys pleidleisio).

## Cyfarfodydd

- 12.** Yn unol â Rheol Sefydlog 11.8, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfarfod o leiaf unwaith y pythefnos pan fydd y Senedd yn eistedd.
- 13.** Bydd y Pwyllgor Busnes fel arfer yn cyfarfod bob wythnos, bob bore Mawrth am 8.30am yn yr ystafell gyfarfod ar bedwerydd llawr (Bloc A) Tŷ Hywel.
- 14.** Gellir cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes yn gyhoeddus neu'n breifat, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42. Serch hynny, bydd fel arfer yn cyfarfod yn breifat er mwyn trafod trefn y busnes. Yn y Trydydd a'r Pedwerydd Senedd, cyfarfu'r Pwyllgor yn gyhoeddus er mwyn trafod cynigion i newid y Rheolau Sefydlog.
- 15.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi cofnodion pob cyfarfod preifat ar dudalennau rhyngrwyd y Senedd, wythnos ar ôl pob cyfarfod. Mae'r agenda ar gael i'r cyhoedd ar y dydd Gwener cyn y cyfarfod. Dim ond ar y fewnrwyd y caiff yr holl bapurau eraill a drafodir yn breifat eu cyhoeddi a chânt eu diogelu â chyfrinair.
- 16.** Bydd trafodion y Pwyllgor Busnes yn cael eu hwyluso gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes sy'n dosbarthu'r papurau perthnasol ddau ddiwrnod gwaith cyn pob cyfarfod. Clerc y Pwyllgor Busnes yw Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Siambr. Bydd uwch-swyddogion eraill y Senedd a'r llywodraeth yn bresennol i gynghori'r Aelodau.
- 17.** Oni nodir yn wahanol yn y Rheolau Sefydlog, bydd y Pwyllgor Busnes, ac yntau'n un o Bwyllgorau'r Senedd, yn cadw at Reol Sefydlog 17, sef gweithredu Pwyllgorau.

## Pleidleisio

- 18.** Yn ôl confensiwn, bydd y Pwyllgor Busnes yn gweithredu drwy gonsensws a, lle y bo modd, bydd fel arfer yn penderfynu ar faterion heb orfod pleidleisio. Os oes angen pleidlais ffurfiol, bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes, yn ôl y Rheolau Sefydlog, gadw at y gweithdrefnau isod.

### *Y cadeirydd*

- 19.** Caiff y cadeirydd bleidleisio dim ond pan fydd angen defnyddio pleidlais fwrw (ar wahân i un eithriad, sef hwnnw y sonnir amdano ym mharagraff 22 isod). Os bydd angen defnyddio pleidlais fwrw, rhaid i'r cadeirydd bleidleisio:
  - I) o blaid, os oes modd trafod ymhellach;
  - II) yn erbyn, os nad oes modd trafod ymhellach.

### *Pleidleisio wedi'i bwysoli*

- 20.** Yn wahanol i'r drefn bleidleisio mewn pwyllgorau eraill, bydd pleidleisio yn y Pwyllgor Busnes yn cael ei bwysoli yn ôl maint y grŵp gwleidyddol y mae pob un o'r aelodau'n ei gynrychioli.
- 21.** Bydd gan yr holl aelodau o'r Pwyllgor (ac eithrio'r cadeirydd) un bleidlais ar gyfer pob aelod o'r grŵp (neu'r grwpriad) gwleidyddol y mae'n ei gynrychioli (gan eu



cynnwys hwy eu hunain a'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd os ydynt yn aelodau o'r grŵp gwleidyddol).

- 22.** Bydd gan bob aelod nad yw'n aelod o'r grŵp (na'r grwpiad) gwleidyddol yr hawl i fynd i drafodion y Pwyllgor a phleidleisio, oni bai bod tri neu fwy o Aelodau o'r fath. Os nad yw'r cadeirydd yn aelod o grŵp gwleidyddol, caiff bleidleisio yn ogystal â chael y bleidlais fwrw.

*Enghraifft A: Pleidleisio wedi'i bwysoli*

<b>Grŵp gwleidyddol</b>	<b>Nifer Aelodau o'r Senedd</b>	<b>Nifer y pleidleisiau sydd gan gynrychiolydd y grŵp ar y Pwyllgor Busnes</b>
A	30 o Aelodau (gan gynnwys y Llywydd ac 11 aelod o'r Llywodraeth)	30
B	15 o Aelodau	15
C	10 o Aelodau	10
D	5 Aelod (gan gynnwys y Dirprwy Lywydd)	5

*Pleidleisio cymwysedig wedi'i bwysoli*

- 23.** Bydd rhai penderfyniadau penodol a wneir gan y Pwyllgor Busnes yn dilyn y drefn "pleidleisio cymwysedig wedi'i bwysoli" o dan Reol Sefydlog 11.5(iv). Felly, os bydd aelod o'r Pwyllgor yn cynrychioli grŵp (neu grwpiad) gwleidyddol sydd â rôl weithredol, bydd nifer y pleidleisiau sydd gan yr aelod hwnnw'n cael ei gostwng yn unol â nifer yr aelodau yn ei grŵp sydd hefyd yn aelodau o'r Llywodraeth. Defnyddir y drefn hon pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu ar drefn busnes y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ac yn cynnig enwau a chylchoedd gwaith pwyllgorau.

*Enghraifft B: Pleidleisio cymwysedig wedi'i bwysoli*

<b>Grŵp gwleidyddol</b>	<b>Nifer Aelodau o'r Senedd</b>	<b>Nifer y pleidleisiau sydd gan gynrychiolydd y grŵp ar y Pwyllgor Busnes</b>
A	30 (gan gynnwys y Llywydd ac 11 aelod o'r Llywodraeth)	19
B	15	15
C	10	10
D	5 (gan gynnwys y Dirprwy Lywydd)	5

## C. Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor

- 24.** Rôl y Pwyllgor Busnes yw “hwyluso'r modd o drefnu trafodion y Senedd yn effeithiol” fel y nodir yn Rheol Sefydlog 11.1. Yn hynny o beth, mae ei rôl yn un eang. Fodd bynnag, mae ganddo swyddogaethau penodol y mae'n rhaid iddo ymgymryd â hwy yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Caiff y rhain eu hegluro yn yr adran hon.
- 25.** Rhestrir prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Busnes yn Rheol Sefydlog 11.7 ac maent yn cynnwys:
- gwneud sylwadau ar y cynigion ar gyfer trefnu busnes y llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn;
  - trefnu busnes y Senedd yn y Cyfarfod Llawn;
  - cynnig enwau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau;
  - gwneud argymhellion ynglŷn ag arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd wrth gynnal ei fusnes; ac
  - ymgymryd â'r swyddogaethau a neilltuwyd i'r Pwyllgor mewn man arall yn y Rheolau Sefydlog, gan gynnwys cytuno ar amserlen y Senedd a'r amserlenni ar gyfer ystyried Biliau, a'u cyhoeddi.

### Trefnu busnes y Cyfarfod Llawn

- 26.** Prif swyddogaeth y Pwyllgor Busnes yw cynnig sylwadau ar drefn busnes y Cyfarfod Llawn a chytuno ar y drefn honno a bydd yn gwneud hynny bob wythnos ar gyfer y tair wythnos ganlynol (gweler paragraffau 38 i 42). Er mwyn hwyluso blaengynllunio a sefydlu patrwm rheolaidd ar gyfer busnes y Cyfarfod Llawn, bydd y Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyhoeddi dogfen a elwir yn Amserlen y Senedd.

#### *Amserlen y Senedd*

- 27.** Mae amserlen y Senedd yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer defnyddio amser y Senedd, am gyfnodau heb fod yn llai na chwe mis. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.9, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyhoeddi amserlen, o dro i dro, sydd:
- yn nodi'n fras amserlenni'r Cyfarfod Llawn;
  - yn pennu'r amseroedd sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor;
  - yn pennu'r amseroedd sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol;
  - yn rhestru dyddiadau'r toriadau; ac
  - yn rhestru'r dyddiadau ar gyfer cwestiynau i'w hateb ar lafar gan y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Senedd.
- 28.** Wrth lunio'r amserlen, ac yn unol â Rheol Sefydlog 11.10, rhaid i'r Pwyllgor roi sylw i gyfrifoldebau teuluol ac etholaethol/rhanbarthol yr Aelodau, a'u

trefniadau teithio tebygol, ac felly dylai geisio peidio ag amserlennu busnes cyn 9.00 nac ar ôl 18.00.

- 29.** Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, bydd gan y Pwyllgor Busnes yr hyblygrwydd i benderfynu pryd, o fewn y ffiniau a bennir yn Amserlen y Senedd, y ceir trafod categorïau gwahanol o fusnes y Cyfarfod Llawn. Rhoddir yr hyblygrwydd hwn er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu ymateb i ofynion y busnes. Un enghraifft o'r hyblygrwydd hwn yw caniatáu i'r Pwyllgor Busnes benderfynu'n gyffredinol pryd y gellir trafod categorïau gwahanol o fusnes yn y Cyfarfod Llawn, er bod rhaid trafod eitemau'r Llywodraeth yn gyntaf "fel arfer", yn unol â Rheol Sefydlog 12.6(ii).
- 30.** Rhaid i'r Pwyllgor hefyd bennu pa mor aml y cynhelir rhai mathau o fusnes megis dadleuon byr a dadleuon ar gynigion a gyflwynir gan Aelodau, dadleuon ar gynigion deddfwriaethol Aelodau a pha mor aml y cynhelir balotau cysylltiedig i benderfynu ar enw'r Aelod neu'r Aelodau sy'n cael cyflwyno busnes o'r fath.

#### *Categoriâu o fusnes yn y Cyfarfod Llawn*

- 31.** Mae Rheol Sefydlog 11 yn diffinio'r ddau gategori o fusnes yn y Cyfarfod Llawn: busnes y Llywodraeth a busnes y Senedd. Mae rôl y Pwyllgor Busnes yn amrywio yn ôl a yw'n ystyried busnes y Llywodraeth neu fusnes y Senedd.

#### *Busnes y Llywodraeth*

- 32.** Bydd busnes y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn, gan gynnwys faint o amser sydd i'w neilltuo i eitem, yn cael ei benderfynu gan y Llywodraeth yn unol â Rheol Sefydlog 11.12. Fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Busnes gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth. Rôl y Pwyllgor Busnes fydd cynnig sylwadau (nid penderfynu na chytuno) ar drefn busnes y Llywodraeth.
- 33.** Caiff y Llywodraeth benderfynu newid ei busnes ar sail sylwadau gan Reolwyr Busnes eraill. Fodd bynnag, mater i'r Llywodraeth yw hwn.
- 34.** Yn unol â Rheol Sefydlog 11.18, mae busnes y Llywodraeth yn cynnwys trafodion am y canlynol:
- cwestiynau llafar (ac eithrio cwestiynau llafar i'r Comisiwn);
  - unrhyw ddatl frys a gynigir gan un o aelodau'r Llywodraeth;<sup>1</sup>
  - datganiadau gan aelod o'r Llywodraeth;
  - deddfwriaeth lle bydd yr Aelod sy'n gyfrifol am y deddfwriaeth yn aelod o'r Llywodraeth; ac
  - unrhyw gynnig a gyflwynir gan aelod o'r Llywodraeth.

#### *Busnes y Senedd*

---

<sup>1</sup> Ystyr "aelod o'r Llywodraeth" yw'r Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu un o Ddirprwy Weinidogion Cymru.

- 35.** Y Pwyllgor Busnes sydd i benderfynu ar fusnes y Senedd a drafodir yn y Cyfarfod Llawn, yn unol â gofynion Rheolau Sefydlog 11.7(ii) ac 11.13. Y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid neilltuo amser penodol i eitem o fusnes y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ac, os felly, faint o amser y dylid ei neilltuo iddi.
- 36.** Os nad oes modd sicrhau cytundeb drwy gonsensws ar fusnes y Senedd, rhaid gwneud unrhyw benderfyniad am fusnes y Senedd drwy ddefnyddio pleidleisio cymwysedig wedi'i bwysoli, yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(iv). Ceir rhagor o wybodaeth am bleidleisio cymwysedig wedi'i bwysoli ym mharagraff 23.
- 37.** Mae busnes y Senedd yn cynnwys pob eitem o fusnes ac eithrio'r rhai a restrir ym mharagraff 34. Er enghraifft, trafodion sy'n ymwneud â'r canlynol:
- adroddiadau pwyllgorau;
  - deddfwriaeth lle na fydd yr Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth yn aelod o'r Llywodraeth;
  - dadleuon byr; ac
  - unrhyw gynnig a gyflwynir gan Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth.

#### *Datganiad a Chyhoeddiad Busnes*

- 38.** Bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried trefn y busnes bob wythnos o dan yr agenda "trefn y busnes" ar ei agenda. Mae hyn yn cynnwys ystyried:
- 'Busnes yr wythnos hon' - dogfen sy'n cynnwys busnes y llywodraeth a busnes y Senedd ar gyfer yr wythnos galendr honno;
  - amserlen 3 wythnos busnes y llywodraeth, a gyflwynir gan y llywodraeth, yn dechrau o'r wythnos galendr ganlynol; ac
  - amserlen 3 wythnos busnes y Senedd, a baratoir gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes, yn dechrau o'r wythnos galendr ganlynol.
- 39.** Ar ôl pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Busnes, bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn am drefn busnes y llywodraeth, yn ogystal â chyhoeddi trefn busnes y Senedd. Gelwir hyn yn **Ddatganiad a Chyhoeddiad Busnes**.
- 40.** Yn unol â Rheol Sefydlog 11.11, rhaid gwneud y **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** bob wythnos y bydd y Senedd yn cyfarfod yn y Cyfarfod Llawn. Rhaid iddo restru'r busnes ar gyfer yr wythnos ganlynol (a hon fydd sail **Agenda'r Cyfarfod Llawn**) a'r drefn dros dro ar gyfer busnes y ddwy wythnos ganlynol.
- 41.** Caniateir i Aelodau ofyn cwestiynau am y Datganiad Busnes. Mae hyn yn gyfle i Aelodau wneud cais i'r llywodraeth wneud datganiad neu gynnal dadl yn y Siambr ar fater sydd o bwys i'r Aelod.
- 42.** Bydd y **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** yn cael ei wneud fel datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn a bydd ar gael hefyd ar wefan y Senedd. Ceir linc i'r datganiad yn agenda berthnasol pob **Cyfarfod Llawn** hefyd.

### *Y cyfnod pleidleisio*

- 43.** Bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno ar y “cyfnod pleidleisio” ar gyfer pob Cyfarfod Llawn yn ei gyfarfod wythnosol.<sup>2</sup> Fel arfer, bydd yn amser neu’n bwynt ar agenda’r un diwrnod, a gynhelir ar ôl holl bleidleisiau angenrheidiol y diwrnod.<sup>3</sup>
- 44.** Gellir gwneud penderfyniadau (neu gynnal pleidleisiau) ar gynigion a gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn yn syth ar ôl iddynt gael eu trafod. Gellir cytuno ar gynigion neu welliannau heb eu trafod ar ddiwedd y trafodion ar yr eitem honno o fusnes (h.y. nid oes aelod wedi gwrthwynebu cytuno arnynt). Fodd bynnag, os bydd Aelod yn gwrthwynebu, fel arfer caiff pleidleisiau angenrheidiol eu gohirio tan y “cyfnod pleidleisio”.
- 45.** Caiff y Pwyllgor Busnes hefyd benderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 11.15(ii), na fydd eitem o fusnes y cyfeirir ati yn y **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** yn gymwys i gytuno arni heb ei thrafod. Os penderfynir ar hyn, bydd y Pwyllgor Senedd yn dyrannu amser neu bwynt yn ystod busnes Cyfarfod Llawn y dydd pan fydd y bleidlais berthnasol i’w chynnal. Caiff yr amser hwn ei nodi ar **Agenda’r Cyfarfod Llawn** cyn y cyfarfod.

### *Atal y Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn cyflwyno eitemau o fusnes yn y Cyfarfod Llawn*

- 46.** O bryd i’w gilydd, mae’n bosibl y caiff y Pwyllgor Busnes geisiadau i atal y Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn cyflwyno eitemau o fusnes nad ydynt wedi ymddangos cyn hynny ar y **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**. Fel arfer, y rheswm dros hyn yw mai eitemau o fusnes heb eu rhagweld yw’r rhain ac mae angen ymdrin â hwy cyn gynted â phosibl ond, o dan amgylchiadau arferol, bydd angen rhoi rhybudd yn eu cylch ymlaen llaw.
- 47.** Er y caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i atal y Rheolau Sefydlog dros dro, sefydlwyd confensiwn erbyn hyn y dylai unrhyw gynnig o’r fath i gyflwyno busnes fynd rhagddo ar sail consensws trawsbleidiol. Felly, y gysail yw bod y Pwyllgor Busnes fel arfer yn cytuno ar unrhyw gynnig i atal y Rheolau Sefydlog dros dro at y diben hwn yn gyntaf cyn iddo gael ei gyflwyno yn enw’r Llywydd, ond bydd y llywodraeth yn aml yn cyflwyno ei chynigion ei hun i atal dros dro os yw’n ymwneud â’i busnes hi.

### *Ystyriaethau eraill sy’n gysylltiedig â threfn busnes y Cyfarfod Llawn*

#### *Neilltuo amser ar gyfer categorïau o fusnes y Cyfarfod Llawn*

- 48.** Er mwyn sicrhau bod amser y Cyfarfod Llawn yn cael ei rannu’n deg rhwng busnes y llywodraeth a busnes y Senedd, mae Rheol Sefydlog 11.17 yn dweud

---

<sup>2</sup>Yn ôl Rheol Sefydlog 11.15, mae’r llywodraeth yn penderfynu pryd y cynhelir pleidleisiau ar ei busnes, a bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu pryd y cynhelir pleidleisiau ar fusnes y Senedd. Yr hyn sy’n arferol yw y cynhelir pleidleisiau ar fusnes y Senedd a busnes y llywodraeth yn ystod yr un “cyfnod pleidleisio”.

<sup>3</sup>Ar gyfer trafodion Cyfnod 3 (neu’r Cyfnod Adrodd) pan fydd y Senedd yn ystyried gwelliannau i Fil, cynhelir pleidleisiau yn ystod trafodion y Cyfarfod Llawn, ac ni chaniateir eu gohirio tan y cyfnod pleidleisio. Mae cysail wedi’i gosod i bleidleisio ar bob eitem arall o fusnes cyn dechrau trafodion Cyfnod 3.

bod yn rhaid cadw at y gymhareb 3:2 wrth rannu cyfanswm yr amser sydd ar gael ar gyfer y naill a'r llall, yn y drefn honno. Mater i'r Pwyllgor Busnes yw sicrhau'r cydbwysedd hwn.

#### *Diogelu eitemau busnes penodol yn y Cyfarfod Llawn*

**49.** Yn unol â Rheol Sefydlog 11.21, rhaid i'r Pwyllgor Busnes neilltuo amser ym mhob un o flynyddoedd y Senedd i drafod yr eitemau o fusnes a ganlyn yn y Cyfarfod Llawn:

- polisi a rhaglen deddfu Llywodraeth Cymru;
- dadleuon y gwrthbleidiau;
- dadleuon a gynigir gan Aelodau nad ydynt yn Weinidogion;
- dadleuon am adroddiadau pwyllgorau;
- dadleuon byr; a
- deddfwriaeth a gynigir gan Aelodau.

#### **Strwythurau ac aelodau'r pwyllgorau;**

**50.** Yn unol â Rheol Sefydlog 16, y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am bennu strwythur pwyllgorau'r Senedd. Rhaid iddo wneud hynny cyn gynted â phosibl ar ôl etholiad cyffredinol y Senedd. Mae'n gyfrifol hefyd am gyflwyno cynigion sy'n ymwneud ag aelodau a chadeiryddion pwyllgorau, yn unol â Rheolau Sefydlog 17.2 – 17.16.

**51.** Wrth gynnig strwythur y pwyllgorau, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau ei fod yn bodloni gofynion penodol a bod pwyllgorau cyfrifol i ymgymryd â'r swyddogaethau allweddol a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau:

- bod pob un o feysydd cyfrifoldeb y Llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau;
- bod pob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau; a
- bod cydbwysedd cyffredinol, pan fo hynny'n rhesymol ymarferol, rhwng gweithredu'r cyfrifoldebau i:
  - archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig; ac
  - archwilio deddfwriaeth.

**52.** Yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, caiff y Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig i newid nifer, enw neu gylch gorchwyl unrhyw bwyllgor yn ystod oes Senedd os yw'n ymddangos bod angen gwneud hynny.

- 53.** Rhaid i'r Senedd hefyd ystyried cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar aelodau a chadeirydd pob pwyllgor. Wrth gyflwyno'r cynnig hwn, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau:
- bod cydbwysedd y cadeiryddion ar draws y pwyllgorau'n adlewyrchu'r grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau'n perthyn iddynt;
  - lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, y cynigir lle i bob Aelod nad yw'n perthyn i grŵp gwleidyddol ar o leiaf un pwyllgor; a
  - lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, y bydd cyfanswm y lleoedd a neilltuir ar bwyllgorau i Aelodau sy'n perthyn i bob grŵp gwleidyddol o leiaf gynifer â nifer yr Aelodau sy'n perthyn i'r grŵp gwleidyddol hwnnw.
- 54.** Yn ymarferol, y grwpiau gwleidyddol sy'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes pa Aelodau a fydd yn eu cynrychioli ar bob pwyllgor y mae ganddynt le arno.
- 55.** Pan ddaw lle'n wag ar bwyllgor, rhaid i'r Pwyllgor Busnes ystyried pa effaith y gallai hyn ei chael ar aelodau'r pwyllgor hwnnw, ac ar aelodau unrhyw bwyllgor arall. Yn sgil hynny, rhaid iddo ystyried a oes angen cyflwyno cynnig sy'n argymhell newid aelodau unrhyw un o bwyllgorau'r Senedd.

## **Craffu ar Filiau'r Senedd**

### *Amserlennu*

- 56.** Yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am gyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried Bil, ac eithrio unrhyw gam a gymerir yn y Cyfarfod Llawn (h.y. dadl Cyfnod 1 am egwyddorion cyffredinol y Bil neu drafodion Cyfnod 3 am welliannau iddo). Penderfynir ar ddyddiadau'r Cyfarfod Llawn fel rhan o ystyriaeth arferol y Pwyllgor o drefniadaeth busnes llawn, gyda'r Pwyllgor yn penderfynu ar amserlennu Biliau anllywodraethol, a'r Llywodraeth yn trefnu ei rhai ei hun.
- 57.** Yn ymarferol, ar ôl cyflwyno Bil, neu'n fuan cyn hynny, bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i gynnig amserlen ar gyfnodau pwyllgor:
- Cyfnod 1: y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil gan bwyllgor;
  - Cyfnod 2: y dyddiad cau dros dro i bwyllgor orffen ei ystyriaeth fanwl o unrhyw welliannau a gyflwynwyd i'r Bil (yn amodol ar y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1).
- 58.** Cyn cytuno ar yr amserlen, bydd y Pwyllgor Busnes yn ymgynghori â'r pwyllgor cyfrifol arfaethedig ynghylch yr amserlen. Caiff y Pwyllgor Busnes newid yr amserlen wedyn, fel y mae'n ystyried yn briodol, ond rhaid iddo roi rhesymau am newidiadau o'r fath. Rhaid cyhoeddi'r amserlen, a newidiadau dilynol iddi, ar **wefan y Senedd**.

### *Cyfnod 1 - ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil*

- 59.** Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, ar ôl i Fil gael ei gyflwyno, caiff y Pwyllgor Busnes benderfynu peidio â chyfeirio'r egwyddorion cyffredinol at 'bwyllgor cyfrifol' i'w



hystyried. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu peidio â chyfeirio'r egwyddorion cyffredinol at 'bwyllgor cyfrifol' i'w hystyried, (neu ar ôl y terfyn amser iddo gyflwyno adroddiad), caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno cynnig bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

#### *Cyfnod 2 – ystyried y Bil yn fanwl mewn cyfarfod pwyllgor*

- 60.** Os bydd y Senedd wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Bil yn ôl at y 'pwyllgor cyfrifol' ar gyfer trafodion Cyfnod 2 a chytuno ar derfyn amser ar gyfer gorffen y broses. Dyma'r camau arferol.
- 61.** Fodd bynnag, os cytunodd y Pwyllgor Busnes yng Nghyfnod 1 i beidio â chyfeirio'r egwyddorion cyffredinol at 'bwyllgor cyfrifol' i'w hystyried, rhaid iddo gyfeirio'r Bil at 'bwyllgor cyfrifol' ar gyfer trafodion Cyfnod 2.
- 62.** Fel arall, caiff y Pwyllgor Busnes, drwy gynnig yn y Cyfarfod Llawn, gynnig y dylai trafodion Cyfnod 2 gael eu hystyried gan un o bwylgorau'r Senedd cyfan, i'w gadeirio gan y Llywydd.

#### *Cyfnod 3 – ystyriaeth fanwl o'r Bil yn y Cyfarfod Llawn*

- 63.** Yn ystod trafodion Cyfarfod Llawn Cyfnod 3, yng nghyswllt Biliau a gyflwynir gan Aelodau nad ydynt yn Aelodau'r llywodraeth, caiff y Pwyllgor Busnes:
  - gyflwyno cynnig nad yw gwelliannau'n cael eu gwaredu yn y drefn y mae'r darpariaethau y maent yn perthyn iddynt yn ymddangos yn y Bil;
  - ar gynnig heb rybudd, ofyn i'r Senedd gytuno ar un terfyn amser neu fwy ar gyfer dadleuon ar y gwelliannau.
- 64.** Ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes (mewn perthynas â Biliau nad ydynt yn rhai'r llywodraeth) benderfynu pryd yr ystyrir y cynnig y dylid derbyn y Bil mewn Cyfarfod Llawn. Yn ôl y Rheolau Sefydlog, rhaid gwneud hyn fel rheol o leiaf bum diwrnod ar ôl cwblhau Cyfnod 3, er y gellir ei gynnig heb rybudd yn syth ar ôl Cyfnod 3 gyda chydysniad y Llywydd.
- 65.** Ceir rhagor o wybodaeth am y broses deddfwriaethol ar y **tudalennau deddfwriaeth** ar wefan y Senedd.

### **Cydsyniad mewn perthynas â Biliau Senedd y Deyrnas Unedig**

- 66.** Pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar bwnc sydd wedi'i ddatganoli i'r Senedd, yn ôl y confensiwn, mae'n ofynnol iddi gael cydsyniad y Senedd cyn derbyn y deddfwriaeth dan sylw. Rhoddir cydsyniad o'r fath drwy gytuno ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Yn ôl Rheol Sefydlog 29, rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol i roi gwybodaeth am Fil perthnasol Senedd y DU ac i hwyluso'r Senedd i ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.
- 67.** Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4, caiff y Pwyllgor Busnes gyfeirio unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol at bwylgor neu bwylgorau i'w ystyried cyn i'r Senedd ei drafod.



**68.** Os caiff memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei gyfeirio at bwylgor neu at bwylgorau i'w ystyried, rhaid i'r Pwyllgor Busnes bennu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor, neu i'r pwyllgorau, ei ystyried a chyflwyno adroddiad yn ei gylch.

### **Amserlen ar gyfer ystyried y Gyllideb Flynyddol**

**69.** Mae'n ofynnol i'r Senedd ystyried Cynnig y Gyllideb Flynyddol bob blwyddyn, fel arfer ar ddiwedd tymor yr hydref. Mae'r broses yn cynnwys cynnig i gytuno ar gyllidebau terfynol y Llywodraeth a'r Comisiwn, ac amcangyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am gyhoeddi'r amserlen ar gyfer ystyried cyllideb ddrafft y Llywodraeth a'r dyddiad pan gaiff Cynnig y Gyllideb Flynyddol ei gyflwyno.

#### *Cyllideb y Llywodraeth*

**70.** Fel arfer, cyhoeddir yr amserlen ar gyfer ystyried cyllideb ddrafft y Llywodraeth gan y Pwyllgor Busnes cyn toriad yr haf, drwy ymgynghori â'r Llywodraeth a'r pwyllgor sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth craffu ariannol. Bydd hyn yn rhoi digon o rybudd i'r pwyllgorau gynllunio'u proses graffu o fewn yr amser sydd wedi'i neilltuo.

**71.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 20.2 a 20.4, mae'r amserlen yn cynnwys:

- erbyn pa ddyddiad y bydd un o Weinidogion Cymru yn cyhoeddi cynigion amlinellol a manwl ar gyfer cyllideb ddrafft y Llywodraeth, yn unol â'r hysbysiad a roddwyd i'r Pwyllgor Busnes gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth; ac
- erbyn pa derfyn amser y mae'n rhaid i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar y cynigion amlinellol ar gyfer y Llywodraeth. Mae'r Pwyllgor Busnes yn pennu'r terfyn amser hwn ond, fel arfer, rhaid rhoi o leiaf 8 wythnos i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar y cynigion cyllideb amlinellol a rhaid rhoi o leiaf 5 wythnos bob amser i gyflwyno adroddiad, a rhaid rhoi o leiaf 5 wythnos i'r pwyllgorau eraill ystyried cynigion manwl y gyllideb;
- erbyn pa ddyddiad y bydd un o Weinidogion Cymru yn cyflwyno cynnig y gyllideb flynyddol, yn unol â'r hysbysiad a roddwyd i'r Pwyllgor Busnes gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth.

**72.** Yn unol â Rheol Sefydlog 20.6, ar gais y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth, caiff y Pwyllgor Busnes wedyn newid yr amserlen a gyhoeddwyd. Rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyhoeddi'r amserlen ddiwygiedig.

#### *Cyllideb y Comisiwn*

**73.** Yn unol â Rheol Sefydlog 20.20, os bydd adolygiad o wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru, caiff y Pwyllgor Busnes gytuno ar gais gan y Comisiwn i bennu dyddiadau gwahanol ar gyfer gosod cyllideb ddrafft y Comisiwn.

**74.** Os bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno i newid, rhaid iddo hysbysu'r Senedd drwy osod adroddiad.

## Arferion a gweithdrefnau cyffredinol

75. Mae gan y Pwyllgor Busnes rôl weithdrefnol bwysig hefyd, ac mae'r Rheolau Sefydlog yn cynnig modd i'r Pwyllgor gyflwyno argymhellion am arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd.
76. Mae Rheol Sefydlog 33 yn caniatáu i'r Pwyllgor Busnes argymhell newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, fel y'u rhestrir isod. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ystyried materion gweithdrefnol eraill sy'n codi o ganlyniad i ystyried newid y Rheolau Sefydlog.
77. Ar ben hynny, caiff y Llywydd, drwy ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, gyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i'r Aelodau ar gynnal trafodion y Senedd mewn ffordd briodol (Rheol Sefydlog 6.17). Cyhoeddwyd y '**Canllawiau**' hynny ar 4 Mehefin 2019.

### *Ail-wneud a diwygio'r Rheolau Sefydlog*

78. Yn unol â Rheol Sefydlog 33.2, dim ond y Pwyllgor Busnes sy'n cael cyflwyno cynnig i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.
79. Fodd bynnag, yn unol â Rheol Sefydlog 33.1, os bydd o leiaf chwe Aelod yn cynnig i'r Pwyllgor Busnes y dylid ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, rhaid i'r Pwyllgor Busnes ystyried y cynnig a chyflwyno adroddiad ar y cynnig o fewn amser rhesymol.

## Swyddogaethau achlysurol eraill y Pwyllgor Busnes

### *Comisiwn y Senedd*

80. Mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am gyflwyno cynigion sy'n gysylltiedig ag aelodaeth Comisiwn y Senedd. Cyn gynted ag y bo modd ar ôl etholiad cyffredinol y Senedd, a 10 diwrnod fan bellaf ar ôl penodi aelodau'r Pwyllgor Busnes, rhaid i'r Senedd ystyried cynnig gan y Pwyllgor Busnes sy'n cynnig enwau'r pedwar Aelod sydd i'w penodi'n aelodau o Comisiwn y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 7.1.
81. Cyfrifoldeb y pedair plaid wleidyddol fwyaf yw hysbysu'r Pwyllgor am enw'r Aelod sydd i'w gynnwys yn y cynnig, ond, os oes llai na phedwar grŵp gwleidyddol, mater i'r Pwyllgor Busnes fydd enwi unrhyw Aelod(au) ychwanegol.
82. Os bydd Aelod yn cyflwyno cynnig i roi cyfarwyddyd arbennig i'r Comisiwn o dan Reol Sefydlog 7.11, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno adroddiad ynghylch a ddylid neilltuo amser i drafod cynnig o'r fath.

### *Gweithdrefn arbennig y Senedd*

83. Os bydd y Llywydd yn dweud wrth y Senedd fod yn rhaid ystyried deiseb yng nghyswllt is-ddeddfwriaeth o dan weithdrefn arbennig y Senedd, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio deiseb (a gwrth-ddeiseb) o'r fath at bwyllgor i'w hystyried a chyflwyno adroddiad yn ei chylch yn unol â Rheol Sefydlog 28.22.